**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon,
a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

12 Hydref 2022

Sesiwn friffio gyda swyddogion Cymru Greadigol

Annwyl Dawn

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i'r heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol yng Nghymru ar hyn o bryd. Rhan allweddol o gylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn yw cynnwys ystyriaethau yn ymwneud â digonolrwydd sgiliau a chyfleoedd hyfforddi o fewn y sector. Yn dilyn eich cyhoeddiad (21 Medi 2022) ar gynllun newydd i ddatblygu talent greadigol Cymru, hoffai'r Pwyllgor drafod manylion y cynllun hwn gyda swyddogion Cymru Greadigol.

Pwrpas y drafodaeth hon fyddai helpu'r Pwyllgor i ddeall gwaith Cymru Greadigol yn well, yn ogystal â deall y cynllun newydd sydd wedi'i gyhoeddi. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael cymaint o wybodaeth â phosibl am y gwaith hwn cyn holi tystion fel rhan o'i ymchwiliad.

O ystyried pwysigrwydd y cynllun hwn wrth ddatblygu'r genhedlaeth bresennol o dalent yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru a'r genhedlaeth nesaf, ac o ystyried ymchwiliad parhaus y Pwyllgor, a fyddech chi'n fodlon i swyddogion Cymru Greadigol ddarparu briff preifat byr i'r Pwyllgor ddydd Mercher 26 Hydref 2022?

Dylwn nodi bod y cais hwn yn ychwanegol at eich gwahodd chi a'ch swyddogion i ddarparu tystiolaeth ffurfiol yn nes ymlaen yn yr ymchwiliad; bydd swyddogion y Pwyllgor yn cysylltu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r mater hwnnw ar wahân.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod imi a yw hyn yn bosibl cyn gynted ag y gallwch.

Yn gywir,

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Delyth Jewell AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.